Mewnoli Cartref Gofal Hafan y Waun	Porth Gofal	1,100	Roedd adroddiad i'r Cabinet ar 04/07/23 yn amlygu diffyg posib Blwyddyn Lawn o £1.3m, ond dyrannodd swm o £1.0m o'r cronfeydd wrth gefn i gynorthwyo yn y tymor byr. Amcangyfrif o ddefnydd diweddaraf y gronfa wrth gefn hon yn 23/24 yw £566k gan adael £434k ar gael ar gyfer 24/25. Gyda chostau Blwyddyn Lawn wedi'u hamcangyfrif o £2.3m, mae angen darpariaeth cyllideb sylfaenol o £1.1m (ar ôl ystyried cyllideb gyfredol HYW o £0.8m a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn). Bydd angen monitro hyn yn ofalus a'i adolygu ymhellach ar gyfer 25/26.
Contract Tîm a Reolir o fewn Gofal wedi'i Gynllunio (Plant) + Risg i'r Gyllideb	Grŵp Arweiniol / Porth Gofal /Porth Cynnal	-	£1.3m i'w ariannu o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y Contract Tîm a Reolir (net £300k) a'r risg o ddefnyddio staff asiantaeth (£1.0m)
x3 Cyfleusterau Plant o fewn y Sir - Costau gweithredu	Porth Gofal	1,076	Mae'r gyllideb sylfaenol bresennol yn caniatáu ar gyfer £633k o gostau, ond rhagwelir y bydd costau rhedeg blwyddyn lawn y 3 cyfleuster newydd cyntaf yn y sir tua £1.71m. Rhagwelir y bydd y strwythur staffio a ffeirir yn costio £1.94m Felly mae angen lleiafswm o £1.076m o ddarpariaeth ychwanegol yn y gyllideb
Leoliadau y Tu Allan i'r Sir	Grŵp Arweiniol	1,186	Ar hyn o bryd mae 23 o leoliadau Plant y tu allan i'r sir. Gallai rhai o'r rhain fod yn addas ar gyfer darpariaeth yn y sir a/neu dylent ddod yn addas ar gyfer trefniadau amgen o fewn amserlen resymol (e.e. Maethu, Byw â Chymorth, Tai Llety â Chymorth). Tybiwyd y bydd 1 lleoliad y tu allan i'r sir yn trosglwyddo yn ôl i drefniant amgen yn ystod y flwyddyn a gosodir 6 ychwanegol o fewn y ddarpariaeth yn y sir. Mae ystyried y symudiadau hyn yn dal i arwain at bwysau o ran costau o £1.2m ar y gyllideb hon, oherwydd hyd yn oed o gymryd bod 7 o blant yn cael eu lleoli yng Ngheredigion, yna byddai 3 yn rhagor o leoliadau y tu allan i'r sir na'r gyllideb sylfaenol a ragdybiwyd ar gyfer 23/24. Roedd cyllideb sylfaenol 23/24 yn rhagdybio 13 o leoliadau ar gost gyfartalog o £217k, ond cost gyfartalog wirioneddol lleoliadau yw tua £261k. Mae yna hefyd 9 lleoliad coleg y tu allan i'r sir ar gost gyfartalog o £95k. Amcanestynnir felly y bydd cyfanswm costau lleoliadau plant a choleg y tu allan i'r sir tua £5.45m - ar ôl darparu ar gyfer gostyngiad o 7 lleoliad craidd. Nid oes lwfans ar gyfer unrhyw dwf sy'n risg.
Grant Gweithlu Gofal Cymdeithasol	Porth Cynnal	253	Mae Llywodraeth Cymru wedi lleihau'r dyraniad cyffredinol ar gyfer y grant hwn yn genedlaethol o £45m i £34m h.y. toriad o £11m (24.4%), a disgwylir i'r golled o ganlyniad i Geredigion fod tua £250k
IS-GYFANSWM		8,867	

Cyllideb 2024/25: Pwysau o ran Costau

Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
4. Pwysau o ran Costau sy'n Berthnasol i Wasanaethau Eraill			
Contractau Meddalwedd - Office365	Cyswllt Cwsmeriaid	121	Costau ychwanegol gyda chontract Microsoft Office 365 yn unol â phrisiau Blwyddyn 2 (cynnydd o 10.9% a dim gostyngiad contract BI 2) a amcangyfrifir tua £700k (ac eithrio HyW)
Contractau Meddalwedd - Cymorth a Chynnal a Chadw Blynyddol / Trwyddedau	Cyswllt Cwsmeriaid	34	Cynnydd cysylltiedig â chwyddiant ar gontractau Meddalwedd eraill (tua 7% ar tua £480k)
Contractau Meddalwedd - Meddalwedd newydd Gwasanaeth y Crwner	Cyswllt Cwsmeriaid	8	Trwydded Cymorth a Chynnal a Chadw Flynyddol ar gyfer system newydd a brynwyd yn 2023 fel rhan o gefnogi gwaith moderneiddio gwasanaeth y Crwner
Contractau Meddalwedd - Seilwaith Cydnerthedd Cwmwl	Cyswllt Cwsmeriaid	56	System 365 wrth gefn - £36k a SEIM (Rheoli Gwybodaeth a Digwyddiadau Diogelwch) - £20k
Chwyddiant Contract PFI Penweddig	Cyllid a Chaffael	41	Mae Contract PFI Penweddig sy'n rhedeg tan fis Rhagfyr 2030 yn cynnwys darpariaeth chwyddiant RPIX. Ffactorau chwyddiant diweddar fu: 21/22 +1.6%, 22/23 +9.1%, 23/24 12.6%. Tybir y bydd 24/25 yn +2.5% ar y Gost Unedol o tua £1.6m. Mae hyn yn gontractiol ac yn ymarferol mae'r gweithredwr PFI yn ei dro yn wynebu chwyddiant ar ddeunyddiau, cyflenwadau a chyflogau ac ati.
Cludiant Statudol rhwng y Cartref a'r Ysgol	Priffyrdd ac Amgylcheddol	839	Impact effaith blwyddyn gyfan prisiau tendro Medi 23 ar gyfer llwybrau gosod (cynnydd cyfartalog oedd 43%).
Contractau Gwaredu Gwastraff - Gwastraff Du Gweddilliol (Chwyddiant)	Priffyrdd ac Amgylcheddol	323	Codiad chwyddiant contractiol ar gontract Gwastraff Gweddilliol gydag LAS (ond noder y contract sydd allan i dendr ar hyn o bryd - sefyllfa i grisialu ym mis Ionawr 2024)
Contractau Gwaredu Gwastraff - Ailgylchu Sych (Chwyddiant)	Priffyrdd ac Amgylcheddol	70	Codiad chwyddiant contractiol ar gontract Ailgylchu Sych gyda Regen
Contractau Gwaredu Gwastraff - Ailgylchu Sych (Llai o Gyfran Enillion)	Priffyrdd ac Amgylcheddol	113	Llai o berfformiad cyfran enillion ar ailgylchu sych oherwydd cyflwr presennol y farchnad. Incwm chwarterol wedi gostwng i tua £15k o uchafbwynt o £56k yn Ch1 22/23
Uned Cynnal a Chadw Trafniadaeth - Chwyddiant Rhannau	Priffyrdd ac Amgylcheddol	45	Mae prisiau / chwyddiant uchel yn dal i gael eu gweld mewn perthynas â chwyddiant Cyflenwyr ar Ddeunyddiau Allweddol (e.e. Teiars a Darnau Sbâr ac ati)
Adweithiol / Cynnal a Chadw Priffyrdd	Priffyrdd ac Amgylcheddol	289	Cost Goramser a Chostau Wrth Gefn (£225k), ynghyd â chodiad ar gyfer Gwaith Wedi'i Gynllunio (7% - £64k)
Casglu Gwastraff	Priffyrdd ac Amgylcheddol	150	Model gweithredu presennol - Cost gweithio contractiol ar gyfer gwyliau banc / Gweithredwyr contractwyr allanol i hwyluso adennill llwybrau a gollwyd a threfniadau cyflenwi absenoldeb naturiol
Etifeddiaeth Athrawon Costau Ymddeol yn Gynnar - Effaith Chwyddiant	Pobl a Threfniadaeth	35	Mae chwyddiant tua 6% gan fod chwyddiant pensiynau yn fwy nag unrhyw enillion cyfradd marwolaethau
Prydau Ysgol Am Ddim / AAA (Uwchradd) - Niferoedd uwch	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes (Dirprwyedig)	155	Cynnydd o 73 (871-798) @ £2,126 = £155k
Costau CLG Ysgolion - chwyddiant	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes (Dirprwyedig)	82	Bydd costau gan Wasanaethau Mewnol yn cynyddu i adlewyrchu chwyddiant Cyflogau / Arall

Cyllideb 2024/25: Pwysau o ran Costau

CYFANSWM			
Manylion y Pwysau o ran Costau	Gwasanaeth	CYFANSWM £'000	Sylwadau ychwanegol
Arlwyo - Chwyddiant Costau Bwyd mewn Ysgolion Uwchradd / Ysgolion Pob oed	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes (Dirprwyedig)	62	Yn seiliedig ar gyfradd chwyddiant bwyd o 10.1%
Arlwyo - Chwyddiant Costau Bwyd mewn Cartrefi Gofal	Ysgolion a Dysgu Gydol Oes (Dirprwyedig)	14	Yn seiliedig ar gyfradd chwyddiant bwyd o 10.1%. Dim ond yn berthnasol i Gartrefi Gofal gan y dylai arlwyo Ysgolion Cynradd gael ei ariannu'n llawn trwy gyllid grant Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol Llywodraeth Cymru
IS-GYFANSWM		2,437	
CYFANSWM Y PWYSAU O RAN COSTAU		18,103	10.1% o Gyllideb 23/24 o £180.1m

ATODIAD D

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2024/25**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu
Gwasanaeth:	Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	Y Cyngorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau; Y Cyngorydd Catrin M S Davies, Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a Gwasanaethau Cwsmeriaid
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2024/25:	£1.539m o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion £696k o'r gyllideb sy'n cael ei chadw ar gyfer y Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes
Y gyllideb bresennol:	£56.8m (gan gynnwys £47.5m a ddirprwyir i ysgolion)
Cefndir:	<p>Mae'r amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer y pwysau o ran costau refeniw sy'n wynebu'r Cyngor yn dod i gyfanswm digynsail o £18.1m, sy'n cyfateb i ffactor chwyddiant penodol o 10.1% ar gyfer Ceredigion, o gymharu â'r chwyddiant cyffredinol sy'n 3.9% (ffigwr CPI Tachwedd 2023).</p> <p>Ar ôl ystyried y cynnydd o 2.6% (£3.5m) yn y cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru, mae diffyg o £14.6m yn y gyllideb sy'n rhaid mynd i'r afael ag ef drwy gyfuniad o ostyngiadau yn y gyllideb a chynnydd yn Nhreth y Cyngor. Mae'r gostyngiadau a nodir isod yn rhan o dros 70 o gynigion sy'n dod i gyfanswm o £5.1m, ynghyd ag £1.5m ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyfyngu'r cynnydd yng Nghyllidebau Dirprwyedig Ysgolion i 3.1%.</p>
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<p>1. <u>Adolygiad statudol o'r ddarpariaeth addysg ôl-16 ac ysgolion cynradd –</u> Yn ystod hydref 2024, cyflwynwyd papur i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet a oedd yn amlinellu canfyddiadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Ôl-16 mewn ysgolion yng Ngheredigion. Bydd Astudiaeth Ddichonoldeb bellach yn cael ei gwneud i ystyried manteision ac anfanteision Opsiwn 2 ac Opsiwn 4.</p> <p>Bydd papur cynnig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu</p>

	<p>Cymunedau sy'n Dysgu yn ystod haf 2024 ynghylch ad-drefnu addysg gynradd yn y sir, er mwyn diogelu hyfywedd y seilwaith craidd a sicrhau mwy o effeithiolrwydd o ran costau.</p> <p>Mewn gwirionedd, bydd unrhyw arbedion yn cael eu gweld o 2025/26 ymlaen.</p> <p>2. <u>Ffioedd a Chostau</u> Mae'r ffioedd a'r costau unigol i'w gweld yn Atodiad E. Mae'r ffioedd a'r costau wedi'u hadolygu ar draws y Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes. Mae nifer o'r newidiadau arfaethedig i'r ffioedd / costau yn adlewyrchu'r raddfa bresennol o chwyddiant a'r cynnydd mewn costau staff, tanwydd ac ynni, yn enwedig y ffioedd / costau ar gyfer llogi ystafelloedd / cyfleusterau.</p> <p>Cynigir codi ffi fynediad o £2.00 neu ffi flynyddol o £24 i bob oedolyn sy'n ymweld ag Amgueddfa Ceredigion.</p> <p><u>Yr incwm targed – £60k</u></p> <p>3. Arbedion gweithredol / arbedion effeithlonrwydd yn y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes:</p> <p><u>Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes – Gwasanaeth Diwylliant</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Gwasanaeth Diwylliant wedi adolygu a lleihau nifer y staff yn unol â'r gyllideb (dilëwyd swyddi gwag o'r strwythur) (£63k + £26k). • Mae'r Gwasanaeth Cerdd wedi canfod arbedion gweithredol (£10k). • Cynigir bod y Cytundebau Lefel Gwasanaeth presennol gyda Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Theatr Mwldan yn dod i ben (£44k). • Mae'r gwasanaeth yn cynnig y dylid chwilio am bartïon sydd â diddordeb mewn rhedeg Amgueddfa Ceredigion fel Elusen / Ymddiriedolaeth (£25k). <p><u>Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes – Gwasanaeth Adnoddau Dysgu</u></p>
--	---

Tudalen 150

	<ul style="list-style-type: none"> • Canlyniad y cynnydd yn y gyfradd gyffredinol fesul uned a bennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim. Bydd y gyfradd yn cynyddu o £2.90 i £3.20 ym mis Ionawr 2024 (bydd hyn yn gostwng lefel y cymhorthdal oddi wrth y Cyngor) (£150k). <p>4. Arbedion gweithredol / arbedion effeithlonrwydd yn y Gwasanaeth Ysgolion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arbedion effeithlonrwydd gan gynnwys cynnal adolygiad pellach o strwythur staffio'r Gwasanaeth Ysgolion (£259k). <p>5. <u>Arbedion o Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion - £1.539m</u> Bydd yn rhaid i Gyllidebau Dirprwyedig Ysgolion ddarparu arbedion tuag at darged arbedion cyffredinol y Cyngor. Yn unol â'r hyn drafodwyd gyda Phenaethiaid a Chadeiryddion y Cyrff Llywodraethol ar ddiwedd mis Medi 2023, bydd y cynnydd yng Nghyllidebau Dirprwyedig Ysgolion yn cael ei gyfyngu i 3.1%, yn amodol ar newidiadau yn niferoedd y disgyblion mewn ysgolion unigol.</p> <p>Y Cyrff Llywodraethol unigol fydd yn gyfrifol am yr arbedion sydd eu hangen o fewn cyllidebau eu hysgolion.</p> <p>6. <u>Arbedion Ynni</u> Yr arbedion a ragwelir yn sgil prisiau is nwy o fis Hydref 23 (dangosol 13%) – cyfanswm o £59k. <u>[£3k yn y gyllideb a gedwir + £56k yng Nghyllidebau Dirprwyedig Ysgolion]</u></p>	
<p>A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?</p>	<p>Cydweithio</p>	<p>Mae'r Gwasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes yn cydweithio ag Awdurdod Lleol Powys drwy Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru ar rai elfennau o'r cymorth a ddarperir i ysgolion, gan osgoi dyblygu gwaith wrth ddarparu gwasanaethau.</p>
	<p>Integreiddio</p>	<p>Fel yr uchod</p>

Tudalen 151

A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		Mewnol ✓ Dinasyddion ✓
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	Bydd yn rhaid i'r holl ysgolion adolygu a lleihau nifer y staff yn unol â'u cyllidebau. Bydd yn rhaid i'r holl wasanaethau Ysgolion a Dysgu Gydol Oes adolygu a lleihau nifer y staff yn unol â'u cyllidebau.
	Tymor hir:	Bydd yn rhaid ystyried gwneud penderfyniadau ynghylch seilwaith cynaliadwy o ysgolion ar gyfer y dyfodol.
A ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?		Cyfarfodydd ynghylch Cyllidebau Ysgolion
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:		Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes; Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion

ATODIAD E

Ffi **Ffi** **Newid** **Math o newidiad**
gyfredol **arfaethedig** **(yn £)**

Ffioedd gosod y Cyngor (Mae'r Ffioedd Arfaethedig o 01/04/2024)

PWYLLGOR TROSOLWGW A CHRAFFU: Atodiad 2: Cymunedau sy'n Dysgu

Gwasanaeth Cerddoriaeth

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Offeryn Cerddorol	Cymorth Prynu		£20.00	£25.00	£5.00	Ffi Ailgyfrifo
	Hurio		£40.00	£43.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
Gwersi Offerynau	Plentyn Cyntaf (£ y flwyddyn)		£165.00	£175.00	£10.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Brodyr/Chwiorydd (£ y flwyddyn)		£120.00	£128.00	£8.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Ail offeryn neu fwy (£ y flwyddyn)		£165.00	£175.00	£10.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Disgyblion sy'n gymwys am PYDd		£0.00	£0.00	£0.00	Dim newidiad
	Disgyblion sy'n astudio ar gyfer TGAU neu Lefel A Cerddoriaeth		£0.00	£0.00	£0.00	Dim newidiad
Mynediad i Gerddorfeydd ac Ensembles os nad ydynt yn derbyn gwersi a ddarperir gan Wasanaeth Cerdd Ceredigion (£ y flwyddyn)			£100.00	£107.00	£7.00	Chwyddiant cysylltiedig

Hyfforddiant Gofal Plant

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Cwrs Gwarchod Plant			£168.00	£170.00	£2.00	Chwyddiant cysylltiedig
Cymorth Cyntaf			£34.00	£35.00	£1.00	Chwyddiant cysylltiedig

Prydau Ysgol

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Prydau Disgyblion	(Effeithiol o 01/09/2023)		£2.90	£3.20	£0.30	Ffi Ailgyfrifo
-------------------	---------------------------	--	-------	-------	-------	----------------

Theatr/Canolfan Felinfach

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Gwasanaeth Gwerthu Tocynnau			£26.00	£30.00	£4.00	Ffi Ailgyfrifo
Hurio Theatr	Dydd Llun i ddydd Gwener	Fesul diwrnod llawn	£390.00	£420.00	£30.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul hanner diwrnod	£195.00	£208.00	£13.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£280.00	£300.00	£20.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Dydd Sadwrn a dydd Sul	Fesul diwrnod llawn	£670.00	£700.00	£30.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul hanner diwrnod	£335.00	£355.00	£20.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£305.00	£325.00	£20.00	Chwyddiant cysylltiedig
Hurio Ystafell Gyfarfod Fawr (seddi ar ffurf theatr)	Dydd Llun i ddydd Gwener	Fesul diwrnod llawn	£325.00	£347.00	£22.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul hanner diwrnod	£165.00	£176.00	£11.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£245.00	£261.00	£16.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Dydd Sadwrn a dydd Sul	Fesul diwrnod llawn	£600.00	£640.00	£40.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul hanner diwrnod	£305.00	£325.00	£20.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£275.00	£293.00	£18.00	Chwyddiant cysylltiedig
Hurio Ystafell Gyfarfod Arferol	Dydd Llun i ddydd Gwener	Fesul diwrnod llawn neu Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£65.00	£69.00	£4.00	Chwyddiant cysylltiedig

Atodiad 2: Cymunedau sy'n Dysgu

Ffi gyfredol **Ffi arfaethedig** **Newid (yn £)** **Math o newidiad**

Theatr/Canolfan Felinfach

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Hurio Ystafell Gyfarfod Arferol	Dydd Llun i ddydd Gwener	Fesul hanner diwrnod	£50.00	£53.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Dydd Sadwrn a dydd Sul	Fesul diwrnod llawn neu Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£100.00	£107.00	£7.00	Chwyddiant cysylltiedig
Hurio Ystafell Gyfarfod Arferol (gydag offer)	Dydd Llun i ddydd Gwener	Fesul hanner diwrnod	£85.00	£91.00	£6.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul diwrnod llawn neu Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£76.00	£81.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Dydd Sadwrn a dydd Sul	Fesul hanner diwrnod	£60.00	£64.00	£4.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul diwrnod llawn neu Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£118.00	£126.00	£8.00	Chwyddiant cysylltiedig
Hurio Y Lolfa / Gwndwn	Dydd Llun i ddydd Gwener	Fesul hanner diwrnod	£100.00	£107.00	£7.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul diwrnod llawn	£78.00	£83.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul hanner diwrnod	£42.00	£45.00	£3.00	Chwyddiant cysylltiedig
	Dydd Sadwrn a dydd Sul	Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£63.00	£68.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul diwrnod llawn	£115.00	£120.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig
		Fesul hanner diwrnod neu Fesul sesiwn gyda'r hwyr	£76.00	£81.00	£5.00	Chwyddiant cysylltiedig

ATODIAD F

Premiymau Treth y Cyngor

Y diweddaraŵ am y Cynllun Tai Cymunedol

1. Aeth y Cynllun yn fyw ar 06/11/23 ac mae'n cael ei hyrwyddo'n eang mewn nifer o wahanol ffyrdd:
 - Crëwyd gwefan:
[Y Cynllun Tai Cymunedol - Cyngor Sir Ceredigion](#)
 - Cyhoeddwyd Datganiad i'r Wasg:
[Ceredigion County Council launches community housing scheme | Tivyside Advertiser](#)
[Community Housing Scheme launches in Ceredigion - Carmarthenshire News Online](#)
[Ceredigion County Council launches shared equity scheme to help locals onto housing ladder | cambrian-news.co.uk](#)
 - Cafodd yr holl Aelodau wybod am y cynllun newydd ar e-bost ac yn y cyfarfodydd perthnasol.
 - Cynhelir ymgyrchoedd rheolaidd ar dudalennau'r Cyngor ar y Cyfryngau Cymdeithasol (Twitter / Facebook / Instagram)
 - Mae'r swyddogion perthnasol a'r sefydliadau sy'n bartneriaid (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig / datblygwyr preifat) yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraŵ yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth Tai Cymdeithasol.
 - Ymgysylltwyd â'r broceriaid morgesi arferol.
2. Mae'r ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn uwch ers y Nadolig.
3. Mae £1.8m ym malans agoriadol y cynllun ac mae'r arian hwn yn dod o Bremiymau Treth y Cyngor. Mae'r arian hwn wedi cronni ers 31/03/23.
4. Hyd yn hyn, mae un cais wedi dod i law.
5. Mae dau gais arall wedi'u cyflwyno'n rhannol.
6. Mae saith ymholiad ffurfiol wedi dod i law hyd yma.
7. Nid oes taliadau wedi'u gwneud hyd yn hyn.
8. Mae'r trafodaethau â'r asiantiaid lleol yn parhau er mwyn symleiddio'r broses ymgeisio a sicrhau ein bod yn cyd-fynd â gofynion y benthyccwyr.
9. Mae'n rhy gynnar ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau yn wyneb cyflwr y farchnad dai ar hyn o bryd a'r sefyllfa gyfredol o ran cyfraddau llog. Mae'r sefyllfa o ran cyfraddau llog yn dechrau gwella ac mae'r Benthyccwyr wedi lleihau eu cyfraddau yn yr wythnosau diwethaf.

Darn o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23/01/24

Ar 14/12/23, ystyriodd yr Aelodau lefel Premiymau Treth y Cyngor ar gyfer Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi o 01/04/24 ymlaen a phenderfynwyd y dylai'r Premiwm presennol o 25% gynyddu.

O ganlyniad i'r penderfyniad mae sylfaen treth y Cyngor ar gyfer 24/25 wedi cynyddu. Cadarnhaodd yr adroddiad i'r Cabinet ar 21/12/23, fod yna gynnydd o 3.05% yn amcangyfrif Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer 24/25 (cynnydd o 1,000.52 o ran Band D). Yn seiliedig ar elfen Band D y Cyngor ar lefel bresennol 2023/24, mae hyn yn cyfateb i tua £1.555m heb unrhyw gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Mae hyn i bob pwrpas yn ymwneud ag amcangyfrif darbodus o'r budd ariannol tebygol o'r cynnydd ym Mhremiymau Treth y Cyngor ac mae'n ychwanegol at y lefel gyfredol o 25% y mae swm pellach o £615k wedi'i gyllidebu ar ei chyfer ar hyn o bryd.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Premiymau Treth y Cyngor yn nodi y gall Awdurdod Lleol gadw unrhyw arian ychwanegol a gynhrychir gan Breimiymau Treth y Cyngor. Mae hefyd yn nodi y gall Awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, er eu bod yn cael eu hannog i'w ddefnyddio i helpu i ddiwallu anghenion tai lleol yn unol â'r bwriadau polisi ar gyfer y premiymau.

Ar hyn o bryd, mae 25% o'r Premiymau Treth y Cyngor presennol o Eiddo Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi wedi'i glustnodi fel ymrwymiad i ddiwallu anghenion tai lleol. Mae gan y gronfa Tai Cymunedol newydd falans o £1.8m ar 31/03/23 a bydd hyn yn cynyddu ymhellach erbyn 31/03/24.

O ystyried yr her gyllidebol anferthol sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r Cabinet yn ymwybodol o'r angen i sicrhau cydbwysedd rhwng yr awydd posibl i glustnodi holl breimiymau Treth y Cyngor yn llwyr a'r angen i ystyried sefyllfa'r Gyllideb yn ehangach. Er enghraifft, byddai £1.555m yn medru lleihau lefel Treth y Cyngor Band D tua 3.5%.

Mae'r Cabinet felly am weld y Cynllun Tai Cymunedol yn parhau i weithredu hyd yn oed os yw'r cyllid cychwynnol yn cael ei ddefnyddio ond mae o'r farn nad oes unrhyw fudd pe byddai gormod o arian ar gael ar unrhyw adeg benodol. Felly, ar ôl trafod hyn yn ofalus, mae'r Cabinet yn cynnig:

- Parhau i neilltuo 25% o arian premiymau Treth y Cyngor o 01/04/24, ond na ddylai cyfanswm y cyllid sy'n cael ei ddal fynd y tu hwnt i £2.0m. Byddai hyn yn dal i ganiatáu i arian gael ei ddefnyddio ac i arian gael ei ychwanegu gan ddefnyddio 25% o arian premiymau Treth y Cyngor. Byddai unrhyw gyllid ychwanegol y tu hwnt i'r £2.0m mewn unrhyw flwyddyn benodol yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol.
- Byddai'r 75% arall o arian premiymau Treth y Cyngor o 01/04/24 yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gyllideb gyffredinol er mwyn lleihau baich Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion tua 3.5%.

ATODIAD G

Rhaglen Gyfalaf Amlfwyddyn 2023/24 - 2026/27

2023/24 Diweddaraf			2024/25 Arfaethedig			2025/26 Dangosol			2026/27 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

Ysgolion a Dysgu Gydol Oes

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif (Band B)	3,386	6,178	9,564	1,875	4,094	5,969	-	-	-	-	-	-
Ysgol Henry Richard	37	-	37	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cefnogi cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim	798	-	798	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Canolfan Trochi Iaith a bloc newydd o ddsbarthiadau	-	50	50	-	200	200	-	1,500	1,500	-	3,658	3,658
Anghenion Dysgu Ychwanegol - Addasiadau i Adeiladau	-	458	458	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Prosiect E-sgol	-	73	73	-	-	-	-	-	-	-	-	-
To Newydd Llwyn yr Eos	-	-	-	250	-	250	-	-	-	-	-	-
Darpariaeth Gofal Plant	-	1,380	1,380	-	576	576	-	-	-	-	-	-
To Newydd yr Amgueddfa	-	-	-	1,100	-	1,100	-	-	-	-	-	-
Ysgolion - Gwaith Cyfalaf Ychwanegol	2,285	-	2,285	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Systemau gwresogi o dan y llawr - Ysgolion	60	-	60	535	-	535	-	-	-	-	-	-
Gwaith Brys mewn Ysgolion	150	-	150	150	-	150	150	-	150	-	150	-
Cyfanswm - Ysgolion	6,716	8,139	14,855	3,910	4,870	8,780	150	1,500	1,650	150	3,658	3,808

Porth Cymorth Cynnar

Hwb Cymunedol - Llanbedr Pont Steffan	123	122	245	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Gwaith Brys mewn Canolfannau Llesiant	225	-	225	200	-	200	50	-	50	50	-	50
Cam 2 Uwchraddio Cyfleusterau Llesiant - Chwaraeon Cymru	-	537	537	262	108	370	-	-	-	-	-	-
Caeau Chwaraeon Artiffisial	107	4	111	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Pyllau Nofio Aberaeron a Chalon Tysul Cyf	-	89	89	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	1,400	-	1,400	1,400	-	1,400	1,400	-	1,400	1,400	-	1,400
Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi	61	-	61	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cynllun Tai Cymunedol	100	-	100	600	-	600	600	-	600	500	-	500
Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol	-	146	146	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prynu ac Adnewyddu Eiddo	10	42	52	161	-	161	-	-	-	-	-	-
Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	400	-	400	1,288	-	1,288	-	-	-	-	-	-
Cronfa Tai â Gofal - gan gynnwys Addasiadau Tai a chyllid atodol ar gyfer addasiadau Cyfleusterau i'r Anabl	-	120	120	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Y Cynllun Grantiau Cartrefi Gwag Cenedlaethol	82	-	82	82	-	82	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm - Porth Cymorth Cynnar	2,508	1,060	3,568	2,462	108	2,570	2,050	-	2,050	1,950	-	1,950

2023/24 Diweddaraf			2024/25 Arfaethedig			2025/26 Dangosol			2026/27 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

Yr Economi ac Adfywio

Gwaith Trin Carthion
Gwaith Brys Arall
Adeiladau - Buddsoddi i Arbed Ffyrdd Newydd o Weithio
Buddsoddiadau mewn Cynlluniau Ynni
Rhaglen Datblygu Asedau
Neuadd y Farchnad Aberteifi
Rhaglen Adnewyddu Pomprennau
Grant Gwella Mynediad
Grant Adferiad Gwyrdd
Y Gronfa Rhwydweithiau Natur - Dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig
Afon Teifi
Stryd Ioan, Ceinewydd - Gwella Mynediad i'r Ardal
Arian Cyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur
Prosiectau Ffyniant Bro

200	-	200	456	-	456	-	-	-	-	-	-
100	-	100	100	-	100	100	-	100	100	-	100
175	-	175	175	-	175	175	-	175	175	-	175
5	-	5	1,250	-	1,250	250	-	250	-	-	-
-	180	180	-	-	-	-	-	-	-	-	-
369	28	397	-	-	-	-	-	-	-	-	-
50	-	50	50	-	50	50	-	50	50	-	50
-	103	103	-	103	103	-	-	-	-	-	-
-	32	32	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	445	445	-	-	-	-	-	-	-	-	-
9	36	45	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	366	366	-	394	394	-	-	-	-	-	-
-	1,794	1,794	-	7,771	7,771	-	-	-	-	-	-

Cyfanswm - Yr Economi ac Adfywio

908	2,984	3,892	2,031	8,268	10,299	575	-	575	325	-	325
------------	--------------	--------------	--------------	--------------	---------------	------------	----------	------------	------------	----------	------------

Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Adnewyddu / Gwella Seilwaith y Priffyrdd
Gwasanaethau Amgylcheddol
Y Gronfa Drafnidiaeth Leol - Gwelliannau i Seilwaith Coridorau Bysiau
TrawsCymru
Y Gronfa Drafnidiaeth Leol - Cyllid Craidd ar gyfer Coridorau Bysiau
Trawsnewid - Cerbydau Allyriadau Isel Iawn
Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan (CLILC)
Arian Craidd y Gronfa Teithio Llesol
Y Gronfa Teithio Llesol - Cyswllt Waunfawr i IBERS - Cam 1
Dyraniad Craidd 20mya
Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Llanrhystud
Cae'r Henwas (Cwblhau'r Safle)
Goleuadau Stryd - Buddsoddi i Arbed
Seilwaith Parcio
Cynlluniau Lliniaru Llifogydd Dyfrffos Llandre / Y Borth
Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Capel Bangor a Thal-y-bont
Dyluniad Manwl ar gyfer Gwaith Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron
Diogelu'r Arfordir yn Aberystwyth
Diogelu'r Arfordir yn Llangrannog
Diogelu'r Arfordir yn y Borth ac Ynyslas

2,200	-	2,200	2,080	-	2,080	2,080	-	2,080	2,080	-	2,080
66	-	66	60	-	60	60	-	60	60	-	60
-	950	950	-	950	950	-	-	-	-	-	-
-	250	250	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	298	298	-	370	370	-	-	-	-	-	-
8	8	16	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	500	500	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	1,490	1,490	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	739	739	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	50	50	-	-	-	-	-	-	-	-	-
9	-	9	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	-	-	110	-	110	-	-	-	-	-	-
-	-	-	250	-	250	-	-	-	-	-	-
-	61	61	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	121	121	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	107	107	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	232	232	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	24	24	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	40	40	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Cynlluniau Diogelu'r Arfordir yn Aberaeron
 Cerbydau Newydd i'r Fflyd
 Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff

Cyfanswm - Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

2023/24 Diweddaraf			2024/25 Arfaethedig			2025/26 Dangosol			2026/27 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000
13,000	-	13,000	18,590	-	18,590	-	-	-	-	-	-
848	-	848	500	-	500	1,500	-	1,500	1,500	-	1,500
-	-	-	1,025	-	1,025	-	-	-	-	-	-
16,131	4,870	21,001	22,615	1,320	23,935	3,640	-	3,640	3,640	-	3,640

Porth Gofal

Gwaith Brys - Cartrefi Preswyl
 Y Gronfa Tai â Gofal - Llety Diogel i Blant
 Uwchraddio Cartrefi Preswyl
 Buddsoddiad Cyfalaf Cartref Preswyl Hafan y Waun

Y Gronfa Tai â Gofal - gan gynnwys Storfa Offer Cymunedol Integredig, gwella offer ac effeithlonrwydd, gwneud asesiadau a darparu synwryddion, a throsi'r lolf a fod yn ystyriol o ddementia yn Hafan Deg.

Y Gronfa Gofal Canolraddol - Prosiect Dementia Hafan Deg

Cyfanswm - Porth Gofal

100	-	100	100	-	100	100	-	100	100	-	100
-	1,182	1,182	-	428	428	-	-	-	-	-	-
280	-	280	600	-	600	256	-	256	-	-	-
200	-	200	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	121	121	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-	379	379	-	-	-	-	-	-	-	-	-
580	1,682	2,262	700	428	1,128	356	-	356	100	-	100

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig (Ceredigion a Phowys)

Cyfanswm - Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig

-	2,040	2,040	-	6,012	6,012	-	-	-	-	-	-
-	2,040	2,040	-	6,012	6,012	-	-	-	-	-	-

Cyswllt Cwsmeriaid

Buddsoddi mewn offer a seilwaith TGCh

Cyfanswm - Cyswllt Cwsmeriaid

390	-	390	300	-	300	300	-	300	380	-	380
390	-	390	300	-	300	300	-	300	380	-	380

2023/24 Diweddaraf			2024/25 Arfaethedig			2025/26 Dangosol			2026/27 Dangosol		
Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000	Cyllid Cyffredinol £'000	Grantiau £'000	CYFANSWM £'000

Cyllid a Chaffael

Cynllun Grantiau Cymunedol

Cyfanswm - Cyllid a Chaffael

150	-	150	100	-	100	100	-	100	100	-	100
150	-	150	100	-	100	100	-	100	100	-	100

Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Contract Inphase

Cyfanswm - Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

30	-	30	-	-	-	-	-	-	-	-	-
30	-	30	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Diwygio Gwasanaethau

Cyfarwyddyd Cyfalafu - Diwygio Gwasanaethau

100	-	100	-	-	-	-	-	-	-	-	-
-----	---	-----	---	---	---	---	---	---	---	---	---

CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH

27,513	20,775	48,288	33,649	21,006	54,655	7,171	1,500	8,671	6,645	3,658	10,303
--------	--------	--------	--------	--------	--------	-------	-------	-------	-------	-------	--------

Arian wrth gefn

Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau

Cyfanswm - Arian wrth gefn

350	-	350	250	-	250	350	-	350	350	-	350
182	1,569	1,751	200	4,000	4,200	200	4,000	4,200	200	4,000	4,200
532	1,569	2,101	450	4,000	4,450	550	4,000	4,550	550	4,000	4,550

CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL

28,045	22,344	50,389	34,099	25,006	59,105	7,721	5,500	13,221	7,195	7,658	14,853
--------	--------	--------	--------	--------	--------	-------	-------	--------	-------	-------	--------

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd yn hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideo-gynadledda ddydd Iau, 30 Tachwedd 2023

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Endaf Edwards (Cadeirydd), y Cynghorwyr Marc Davies, Meirion Davies, Amanda Edwards, Eryl Evans, Paul Hinge, Chris James, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Wyn Thomas (Aelod Cabinet) a Bryan Davies (Arweinydd y Cyngor)

Y Swyddogion a oedd yn bresennol: Mrs Elen James, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a'r Prif Swyddog Addysg, Mr Clive Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg, Mr Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol - Atebolrwydd a Chynnydd, Gwasanaethau Ysgolion, Mr Gareth Lanagan, Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion, Miss Lowri Evans, Rheolwr Corfforaethol – Cymorth Cynnar Porth Cynnal, Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau, a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democraidd a Safonau.

(10:00am- 11:10am)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Euros Davies a Rhodri Davies am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Elizabeth Evans am na fedrai ddod i'r cyfarfod gan ei bod ar ddyletswyddau eraill ar ran y Cyngor.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Dim.

3 Canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2023 (Diweddariad)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sef y Cynghorydd Wyn Thomas. Adroddwyd bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu wedi cael trosolwg o ganlyniadau Ceredigion yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2023. Erbyn hyn, roedd y data swyddogol ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru, a chyflwynwyd y data hwnnw yn yr adroddiad. Roedd y data cenedlaethol hefyd ar gael ac roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld y gymhariaeth.

Byddai'r data terfynol ar gael ym mis Rhagfyr, felly nodwyd mai data dros dro yn unig a gyflwynwyd.

Roedd y set o ddata a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o ran canlyniadau wedi lleihau tipyn dros y blynyddoedd. Erbyn hyn, roeddent yn cyhoeddi sgoriau pwyntiau yn unig.

Roedd y data TGAU swyddogol yn edrych ar y "radd gyntaf" yn hytrach na'r "radd orau". Er enghraifft os oedd disgybl yn cael "C" ym mis Tachwedd ac yna'n ail-sefyll ac yn cael "A" yn yr haf, y radd "C" fyddai'n cael ei chynnwys. Yn lleol roeddem yn rhoi'r sgoriau pwyntiau "gradd orau" i'r ysgolion er mwyn dangos yn well pa gymwysterau roedd y disgyblion yn eu hennill ar ddiwedd Blwyddyn 11.

	"gradd gyntaf"		"gradd orau"
	Ceredigion 2023	Cymru 2023	Ceredigion 2023
Sgôr pwyntiau wedi'i chapio (Capped 9)	357	357	358
Pwyntiau Iaith / Llenyddiaeth	40	40	41
Pwyntiau Mathemateg / Rhifedd	38	37	38
Pwyntiau Gwyddoniaeth	38	37	38
Pwyntiau Tystysgrif Her (BAC)	35	32	35

O ran y data Safon Uwch, roedd data cenedlaethol ar gael ar gyfer A*-B ac A*-C ac ychwanegwyd y rhain at y tabl isod er gwybodaeth.

	Ceredigion 2023	Cymru 2023
Graddau A* - A	37.5%	34.2%
Graddau A* - B	61.4%	59.1%
Graddau A* - C	82.5%	80.5%
Graddau A* - E	99.1%	99.5%

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr ynghylch y fethodoleg a ddefnyddir i gasglu'r data gan Lywodraeth Cymru, CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

4 Cymwysterau 14-16

Cyflwynwyd yr adroddiad ynghylch y Cymwysterau ar gyfer disgyblion 14-16 oed gan yr Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sef y Cynghorydd Wyn Thomas. Nododd fod Cymwysterau Cymru'n edrych ar gymwysterau ar gyfer disgyblion rhwng 14 ac 16 mlwydd oed.

Nod 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' oedd sicrhau bod dysgwyr Cymru'n dilyn cymwysterau sy'n eu hysbrydoli ac yn eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Er mwyn gwneud hyn, roedd Cymwysterau Cymru'n ail-ddychmygu cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Bwriad 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' oedd:

- ennyn hyder y cyhoedd yng Nghymru, y DU, ac yn fyd-eang
- sicrhau dewis teg, cydlynol a dwyieithog i ysgolion a dysgwyr
- gwneud y gorau o dechnoleg ddigidol
- sicrhau y gellid cyflwyno cymwysterau mewn ffordd reoledig a chynaliadwy.

Roedd y sefydliad wedi gweithredu model o ddatblygu ar y cyd ac wedi cynnal dau ymgynghoriad.

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad yn ystod y flwyddyn ddiweddar. Roedd y papur hwn yn ystyried penderfyniadau'r ymgynghoriad ynghylch TGAU Gwneud-i-Gymru. Rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023 cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth ar y cynigion ar gyfer y TGAU Gwneud-i-Gymru. Ymgynghorwyd ar y cynigion ar gyfer 26 cymhwyster newydd, a oedd wedi'u grwpio o dan y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Darparodd yr Ymgynghorydd Cefnogi Ysgolion ragor o wybodaeth am y cynnig hwn mewn cyflwyniad PowerPoint.

- Beth sy'n newid a phryd?
- Egwyddorion Gwneud-i-Gymru
- Ymgynghori
- Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd
- Mathemateg a Rhifedd
- Y Gwyddorau a Thechnoleg
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau
- Iechyd a Llesiant
- Y cynnig llawn o gymwysterau 14-16

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y cynnig llawn o gymwysterau, a oedd yn cynnwys rhai galwedigaethol a chyn-awedigaethol. Tra bod yr uchod yn ystyried pynciau mwy traddodiadol, roedd y cynnig llawn yn ystyried pob math o gymwysterau. Byddai'r cymwysterau hyn yn sefyll ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU. Byddai hyn yn darparu cymwysterau a fyddai'n cefnogi ehangder y Cwricwlwm i Gymru ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd a gwaith. Byddai canfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2024.

CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

- 5 Cofnodion Cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion (20.10.23)**
CYTUNWYD i nodi cofnodion cyfarfod Cyngor Ieuenctid Ceredigion.

- 6 Diweddariad ynghylch y ddarpariaeth Gofal Plant yn Llanbedr Pont Steffan**
Roedd Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 1 yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2023 yn tynnu sylw

at y diffyg gofal plant yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd hyn yn bryder o ran cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu'r hawl i ofal plant Dechrau'n Deg a oedd yn cynnig 12.5 awr yr wythnos i blant 2-3 oed yn y dref.

Yn dilyn y cytundeb i ehangu gofal plant wedi'i ariannu drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg i blant 2 oed yng Nghymru, cynhaliodd Ceredigion ymarfer cwmpasu sylweddol i nodi'r ardaloedd ar gyfer ehangu. Ar ôl cyflwyno cynllun busnes i Lywodraeth Cymru, cytunwyd i gynnwys yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) canlynol yn y cynllun ehangach a ddechreuodd ym mis Ebrill 2023:

- Llanbedr Pont Steffan 1 a 2
- Tregaron
- Ceinewydd
- Lledrod
- Llangeitho
- Y Borth
- Ceulanamaesmawr

Llanbedr Pont Steffan oedd yr unig dref heb Gylch Meithrin neu ddarpariaeth gofal plant sesiynol i blant 2-4 oed. Roedd llawer o blant 3 oed yn dechrau'r ysgol (bore yn unig) heb fod wedi mynychu unrhyw fath o ofal plant. Er bod LSOA 1 a 2 Llanbedr Pont Steffan wedi'u cymeradwyo ar gyfer ehangu, nid oedd nifer y lleoedd gofal plant a oedd ar gael yn ateb y galw, felly nid oedd modd i lawer o blant gael mynediad i ofal plant cymwys. Yn Llanbedr Pont Steffan roedd un feithrinfa ddydd breifat gofrestredig ar gyfer 36 o blant, a 3 gwarchodwr plant a oedd yn cynnig 22 o leoedd. Ar y pryd, roedd yr holl ddarparwyr yn llawn ac nid oeddent yn gallu derbyn rhagor o blant a fyddai'n gymwys am y 12.5 awr yr wythnos o ofal plant a ariennir drwy Dechrau'n Deg.

Prif amcanion ehangu Dechrau'n Deg oedd:

- sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd;
- mynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd; a
- chynyddu'r gwasanaethau gofal plant, a'r lleoedd a'r lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg a ddarperir.

Ar y pryd roedd 19 o blant yn gymwys i gael gofal plant Dechrau'n Deg yn ardal 1 a 2 Llanbedr Pont Steffan. Fodd bynnag, gallai'r Awdurdod Lleol ond ariannu lleoedd ar gyfer 10 o blant gan nad oedd digon o leoedd gwag ar gael. Cynhaliwyd sgysiau ac ymholiadau cychwynnol gyda'r Feithrinfa Ddydd breifat ynghylch ehangu. Yn dilyn penderfyniad y Feithrinfa Ddydd i beidio ag ehangu ei gwasanaeth oherwydd ystyriaethau gyda'r safle, roedd swyddogion Dechrau'n Deg wedi bod yn gweithio gyda Mudiad Meithrin i ymchwilio i'r potensial o sefydlu Cylch Meithrin newydd yn Llanbedr Pont Steffan.

Bu'n anodd dod o hyd i leoliad addas i gynnal Cylch Meithrin / gofal plant sesiynol oherwydd yr angen i ddilyn rheoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru / y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn cael ei wneud. Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt i sefydlu Cylch Meithrin naill

ai yng nghwt y Sgowtiaid yn Llanbedr Pont Steffan neu o bosib yn Ysgol Bro Pedr. Nod y Cylch oedd agor ym mis Ionawr fel lleoliad anghofrestredig i ddechrau, a oedd yn golygu y byddai'r plant ond yn gallu cael mynediad i'r ddarpariaeth am lai na dwy awr, gyda'r bwriad o gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru erbyn mis Ebrill 2024.

Adroddwyd y byddai cyfarfod yn cael ei gynnal ar 07 Rhagfyr rhwng y Swyddogion a Llywodraethwyr Ysgol Bro Pedr i drafod, a'r gobaith oedd y byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch lleoliad y Cylch Meithrin yn yr ysgol.

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth ac y byddai diweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor fel rhan o Adroddiad Cynnydd Blwyddyn 2 yr Aseiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

7 Y diweddaraf am Ffrydiau Gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad ynghylch y ffrwd waith a gynhaliwyd yng Nghwrtnewydd. Diolchodd yr Aelodau a oedd yn bresennol yn y ffrwd waith i'r Swyddogion am y cyfle i weld y cyfleusterau yng Nghwrtnewydd a'r cyfle i arsylwi'r addysgu a siarad â'r disgyblion. Roedd yr ymweliad yn un gwerth chweil.

8 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor yn rhai cywir.

Materion yn Codi

Dim.

9 I ystyried Blaenraglen Waith Ddrafft

CYTUNWYD i nodi'r Flaenraglen Waith Ddrafft fel y'i cyflwynwyd yn amodol ar drefnu cyfarfod arall pe bai angen cyn y cyfnod cyn-etholiad ym mis Mai.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 8 Chwefror 2024

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol